Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# CYNLLUN RHEOLI DŴR

# 2025-2030

**Sefydliad sy'n barod i'r dyfodol lle mae cynaliadwyedd wedi'i ymgorffori ar draws addysg, ymchwil, gweithrediadau ac ymarfer dyddiol, gan anrhydeddu ein cyfrifoldeb i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.**

Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg | This document is available in Welsh and English

## CYNNWYS

CYNNWYS ........ 2

1. Cyflwyniad ........ **Error! Bookmark not defined.**

2. Alinio â Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030 ........ **Error! Bookmark not defined.**

3. Adeiladu ar lwyddiant yn y gorffennol ........ **Error! Bookmark not defined.**

4. Amcanion ........ **Error! Bookmark not defined.**

5. Cwmpas ........ **Error! Bookmark not defined.**

6. Monitro ........ **Error! Bookmark not defined.**

7. Rolau a Chyfrifoldebau ........ **Error! Bookmark not defined.**

8. Targedau CAMPUS ........ **Error! Bookmark not defined.**

9. Monitro ac Adrodd ........ **Error! Bookmark not defined.**

10. Cysylltiadau â pholisïau a gweithdrefnau eraill ........ **Error! Bookmark not defined.**

*Cymeradwyo* ........ **Error! Bookmark not defined.**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r brifysgol yn adnabod dŵr yn flaenoriaeth allweddol o fewn ei Chynllun Cynaliadwyedd, yn unol â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Gall prinder dŵr fod yn ffactor pwysig sy'n effeithio ar gymdeithas yn y dyfodol, felly mae angen i ni, fel corff mawr, sicrhau ein bod yn cymryd camau i liniaru ein heffaith bosibl.

Er mwyn sicrhau bod y brifysgol yn cydymffurfio'n statudol gyda'r holl ofynion deddfwriaethol ynghylch dŵr, mae gan PCYDDS ddyletswydd statudol i sicrhau nad yw ein defnydd o adnoddau dŵr yn effeithio'n negyddol ar yr amgylchedd na chenedlaethau'r dyfodol yn unol â Deddf Amgylchedd Cymru 2016. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn edrych i wella ein mesurau lliniaru ynghylch llifogydd a'n prosesau cipio dŵr glaw er mwyn gwella'r gwaith o ail-lenwi dŵr daear a gwella cyfnodau llif brig ar draws y tir er mwyn lleihau llwyth capasiti ar seilweithiau awdurdodau lleol.

Mae PCYDDS wedi cysylltu'r strategaethau hyn â'i hymrwymiad i Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig gyda'r ddogfen hon yn cyfrannu at y Nod Ddatblygu Gynaliadwy isod:



## 2. Alinio â Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030

Mae'r Cynllun Rheoli Gwastraff hwn yn ddogfen gyflawni allweddol sy'n cefnogi Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol 2025-2030 Grŵp PCYDDS, gan drosi ymrwymiadau strategol y Brifysgol yn gamau gweithredu wedi'u targedu er mwyn gwella effeithlonrwydd dŵr, gwydnwch a rheolaeth gyfrifol o adnoddau ar draws yr ystâd.

Mae defnydd dŵr a'r broses o'i reoli yn elfennau hanfodol ar ran effaith amgylcheddol y Brifysgol, gyda phwysigrwydd cynyddol yng nghyd-destun newid hinsawdd, prinder adnoddau, a pherygl llifogydd. Felly, rheoli dŵr yn effeithiol yn cefnogi uchelgeisiau cynaliadwyedd y Brifysgol a'i chyfrifoldebau statudol.

Mae'r Cynllun hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni pileri craidd y Strategaeth:

**EIN POBL:** Trwy hyrwyddo ymwybyddiaeth a newid ymddygiadol, mae'r Cynllun hwn yn annog staff a myfyrwyr i fabwysiadu arferion defnyddio dŵr cyfrifol, gan gefnogi diwylliant o gynaliadwyedd a chyfrifoldeb a rennir ar gyfer cadwraeth adnoddau.


**EIN DIBEN:** Trwy leihau ein defnydd o ddŵr, gwella effeithlonrwydd, a sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth amgylcheddol, mae'r Cynllun hwn yn cefnogi ymrwymiad y Brifysgol i reoli adnoddau'n gyfrifol a gwydnwch hinsoddol.

**EIN LLE:** Trwy wella effeithlonrwydd dŵr ar draws yr ystâd, gweithredu mesurau casglu dŵr glaw ac atebion draenio cynaliadwy yn ogystal â lleihau pwysau ar y seilwaith lleol, mae'r Cynllun hwn yn gwella gwydnwch a pherfformiad amgylcheddol campysau PCYDDS a'u cymunedau cyfagos.

Mae'r Cynllun Rheoli Dŵr hwn wedi'i alinio'n agos â'r Cynllun Rheoli Carbon Net Sero a chynlluniau rheoli cynaliadwyedd ehangach, sy'n ffurfio rhan o fframwaith integredig i gyflawni amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol y Brifysgol.

## 3. Adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol

- Roedd defnydd dŵr yn Abertawe wedi gostwng i 3.4m$^3$ fesul myfyriwr CALl ym mlwyddyn academaidd 23/24.
- Cynhaliodd y tîm cynaliadwyedd ymgyrch i annog myfyrwyr mewn neuaddau preswyl i leihau hyd eu cawodydd.
- Roedd defnydd dŵr yng Nghaerdydd wedi gostwng i 1m$^3$ fesul myfyriwr llawn amser ym mlwyddyn academaidd 23/24.
- Defnydd cyffredinol o ddŵr yng Nghymru oedd 42,261m$^3$ yn 23/24 sydd 7,350m$^3$ yn is na'r llinell sylfaen.
- Roedd PCYDDS 1af yng Nghynghrair Pobl a'r Blaned yn genedlaethol yn 2024/25 ar gyfer y categori 'Lleihau Dŵr'. Daeth PCYDDS yn 3ydd yn genedlaethol ac yn 1af yng Nghymru yn 2025/26.



## 4. Amcanion

Amcanion cyffredinol y cynllun rheoli dŵr yw:

- Lleihau'r defnydd cyffredinol o ddŵr fesul myfyriwr a staff CALl i o dan 4.5m erbyn 2026 a 3.5m erbyn 2030.
- Datblygu llinell sylfaen defnydd dŵr amaethyddol a thiroedd
- Lleihau defnydd trwy adnabod a chael gwared ar ollyngiadau
- Datblygu systemau casglu dŵr glaw a systemau ail-lenwi dŵr daear er mwyn lleihau llwyth seilwaith.
- Gwella effeithlonrwydd dŵr trwy ddefnyddio technoleg a rhesymoli ystadau.
- Cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol
- Datblygu a chynnal system is-fesur dŵr er mwyn adnabod a lleihau gollyngiadau

## 5. Cwmpas

Mae'r cynllun hwn yn berthnasol i bob aelod o staff, myfyriwr a chontractwyr sy'n gweithio o fewn capasiti'r brifysgol. Bydd yr amcanion yn cael eu bodloni trwy weithredu'r tasgau o fewn y cynllun.

## 6. Defnydd Dŵr

Mae defnydd dŵr yn cael ei fesur trwy fesuryddion biliau mewnol y prif gyflenwad ar y campysau a'r ystâd ar wahân. Mae'r data dŵr yn cael ei fonitro gan y tîm cynaliadwyedd ac mae i'w adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau bod defnydd annormal yn cael ei adnabod.

Mae'r llinellau sylfaen defnydd dŵr wedi'u gosod yn unol ag adeg ffurfio corff y brifysgol ym mlwyddyn academaidd 2012/13. Cyfanswm y llinell sylfaen defnydd yw 49,611m a'r llinell sylfaen cyfradd defnydd unigol myfyrwyr a staff CALl yw 5.26m.

Bydd mabwysiadu system is-fesur ar draws yr ystâd yn caniatáu canfod gollyngiadau yn gyflymach ac yn fwy cywir, o fewn a'r tu allan i'r adeiladau a bydd gwerthoedd llinell sylfaen pellach yn cael eu sefydlu ar lefelau adrannol ac adeiladau.

Mae lleihau gwastraff yn un arf yn unig i leihau defnydd. Yn ystod y cynllun hwn, bydd y tîm cynaliadwyedd yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid a restrir yn y ddogfen hon ar ystod o weithgareddau ymgysylltu, ymyriadau technolegol, a gostyngiad trwy resymoli ystadau.

## 7. Rolau a Chyfrifoldebau

| Defnydd Dŵr | Swyddog(ion) Cyfrifol) Cyfrifol | Rhanddeiliaid Allweddol |
|---|---|---|
| **Llety** | Rheolwr Llety | Rheolwyr Campws, Myfyrwyr, Tîm Domestig, Tîm Gweithredol Safle, Tîm Tiroedd |
| **Safleoedd Arlwyo** | Rheolwr Arlwyo a Chynadledda | Rheolwyr Campws, Tîm Domestig, Tîm Gweithredol Safle, Cwsmeriaid |
| **Tiroedd a Thirwedd** | Rheolwr Tiroedd, Pennaeth Strategaeth Ystadau a Rheoli Cyfleusterau Meddal | Tîm Tiroedd, Tîm Gweithredol y Safle |
| **Campws Eang** | Tîm Cynaladwyedd, Pennaeth Strategaeth Ystadau a Rheoli Cyfleusterau Meddal | Yr Holl Staff a Myfyriwr |
| **Gollyngiadau** | Rheolwr Cynnal a Chadw | Tîm Cynnal a Chadw a Chydymffurfiaeth |

## 8. Targedau CAMPUS

Er mwyn rheoli'n weithredol pob targed CAMPUS (Penodol, Mesuradwy, Cyfiawnadwy, Perthnasol ac Amser-gyfyngedig) ar gyfer y Cynlluniau Rheoli yn ymwneud â Chynaliadwyedd, cynhelir y targedau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn yn y ddogfen "Targedau CAMPUS Cynaliadwyedd PCYDDS".

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys person cyfrifol, rhanddeiliaid, mecanwaith adrodd a chamau gweithredu ar gyfer pob blwyddyn o'r cynllun hwn. Mae'r rhain yn cyd-fynd â'r cynllun hwn a thargedau Datgarboneiddio Sector Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Maent yn cynrychioli cymysgedd o newidiadau seilwaith ymarferol, newidiadau mewn ymddygiad a strategaethau ymgysylltu er mwyn sicrhau dull systematig i leihau defnydd dŵr ar draws ystâd PCYDDS gyda'r targed cyffredinol o leihau defnydd dŵr i lai na 3.5m fesul CALl erbyn 2030.

Gellir dod o hyd i'r targedau yma:
https://uowtsd.sharepoint.com/teams/Sustainability_7fuztl_GRP/Shared%20Documents/General/Policy%20&%20Strategy/Strategy%202025-2030/UWTSD_SMART_Targets.xlsx

## 9. Monitro ac Adrodd

Bydd monitro perfformiad carbon yn gweithredu o fewn y fframwaith llywodraethu a sefydlwyd o dan 'Blaenoriaeth Strategol 6: Monitro ac Adrodd' Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS.

Bydd y goruchwylio'n dilyn model sicrwydd tair llinell y Grŵp:

**Goruchwyliaeth Weithredol**

- Pennaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd
- Cyfarwyddwr Ystadau
- Grŵp Llywio Cynaliadwyedd (SSG)
- Integreiddio i'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd
- Adroddiadau KPI blynyddol

**Goruchwyliaeth Llywodraethu**

- Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad
- Cyngor y Brifysgol

**Sicrwydd Allanol**

- System Reoli Amgylcheddol Lefel 5 y Ddraig Werdd
- Archwiliad allanol blynyddol

Bydd cynnydd yn cael ei:

- Adrodd yn flynyddol trwy Adroddiad Cynaliadwyedd PCYDDS
- Integreiddio i ddangosfyrddau Dangosyddion Perfformiad Allweddol sefydliadol
- Alinio lle bo'n briodol â fframweithiau cydnabyddedig fel SBTi

## 10. Cysylltiadau â pholisïau a gweithdrefnau eraill

Mae cyfres o gynlluniau rheoli Cynaliadwyedd wedi'u datblygu ar gyfer y cyfnod 2025-2030:

- Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol y Grŵp 25-30
- Cynllun Rheoli Carbon 25-30
- Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â Chynaliadwyedd 25-30
- Cynllun Adeiladu ac Adnewyddu Cynaliadwy 25-30
- Cynllun Rheoli Ynni 25-30
- Cynllun Teithio Cynaliadwy 25-30
- Cynllun Rheoli Gwastraff 25-30
- Cynllun Bwyd Cynaliadwy 25-30
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 25-30

### Awdur(on) y polisi:

**Dan Priddy** **Teitl Swydd:** Pennaeth Cynaliadwyedd a’r Amgylchedd.

## Rheoli Fersiwn y Ddogfen

| Rhif Fersiwn: | Rheswm dros newid: | Awdur: | Dyddiad newid: |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Statws cyfredol y Polisi: cymeradwywyd

A yw'r Polisi yn berthnasol i**:** AU

Dyddiad cadarnhau: 01 / 06 / 2026

Dyddiad yn effeithiol o: 01 / 06 / 2026

Dyddiad adolygu polisi: 01 / 06 / 2027

I'w gyhoeddi**:** ar wefan PCYDDS

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David